| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | **Adroddiad Diweddaru - Yr Uned Gaffael Gorfforaethol ar y Cyd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad am gynnydd o ran gweithredu'r camau gweithredu a gytunwyd o ran adroddiad sicrwydd isel "Yr Uned Gaffael Gorfforaethol ar y Cyd" a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2018.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau yn yr Uned Gaffael Gorfforaethol ar y Cyd ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Gwnaeth yr adroddiad archwilio godi sawl mater o ran caffael a gweithrediad y gwasanaeth a ddarperir ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint ac arweiniodd at raddfa sicrwydd isel, felly mae angen adroddiad diweddaru cynnydd ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

## 3. Beth yw argymhellion yr adroddiad?

Mae'r Pwyllgor yn adolygu cynnydd o ran rhoi sylw i'r camau gweithredu archwilio ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael wedi darparu diweddariad am y camau gweithredu a gytunwyd o'r adolygiad gwreiddiol. Mae hyn yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud gyda'r rhan fwyaf o gamau gweithredu a bod camau gweithredu ar y trywydd iawn ar y cyfan i gael eu cwblhau erbyn y terfynau amser a gytunwyd. Mae manylion wedi'u cynnwys yn adroddiad Atodiad 1.

Er nad yw'r adain archwilio mewnol wedi gwirio cywirdeb y diweddariadau hyn, mae adolygiad dilynol llawn wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2019 i gyd-fynd â'r adolygiad a gynlluniwyd o Reoli Contractau, a gaiff ei wneud ar y cyd â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir y Fflint.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.